

Dydd Mercher, 12 Ebrill 2023

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 20fed Ebrill, 2023 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cwestiynau gan y Cyhoedd	
4.	Cyhoeddiad gan y Cadeirydd	1 - 2
5.	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023	3 - 8
6.	Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28	9 - 72
7.	Cynigion i'r Cyngor	
7.1.	Cyflwynir gan y Cynghorydd Sir Richard John Mae'r Cyngor hwn yn: Cydnabod fod gwasanaethau bus Sir Fynwy yn gostwng teithiau car preifat, yn helpu i fynd i'r afael ag ynysigrydd gwledig ac yn allweddol i'r dymuniad i sicrhau rhwydwaith cludiant integredig wrth ochr Metro De Cymru. Pryderu'n ddifrifol y bydd dileu cyllid Cynllun Argyfwng Bysus Llywodraeth Cymru ar 24 Gorffennaf 2023 yn gweld bysus yng Nghymru yn gostwng i wasanaeth 'sgerbwd'. Penderfynu lobiö Llywodraeth Cymru yn gadarn i warchod	

gwasanaethau bws Sir Fynwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig lle maent yn rhaff fywyd ar gyfer ein preswylwyr.

7.2. Cyflwynir gan y Cynghorydd Sir Steven Garrett

Mae'r Cyngor yn gresynu am fil mewnfudo anghyfreithlon Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cadw mewn dalfa ac wedyn symud o'r wlad unrhyw un sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig mewn cwch bach, gan olygu na fydd y Swyddfa Gartref yn ystyried unrhyw un o'u hawliadau am loches heb ystyried os ydynt wedi ffoi rhag rhyfel neu erledigaeth.

Caiff y bobl hyn sy'n ceisio lloches wedyn eu hallforio yn ôl i'r wlad y maent wedi ffoi ohoni neu drydedd wlad 'ddiogel'. Gallai'r drydydd wlad hon fod yn Rwanda neu wlad arall y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried ei bod yn ddiogel, efallai gyda record amheus ar hawliau dynol.

Bydd y ddeddfwriaeth annynol hon na chafodd ei hystyried yn ddigonol yn cosbi'r bobl fwyaf fregus o bob rhan o'r byd. Gofynnwyd cwestiynau os yw'r Bil yn gyfreithlon ac os yw'n cydymffurfio gyda'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn gydnaws gyda Chonfensiwn Ffoaduriaid 1951. Mae Prif Weinidog y Deyrnas Unedig hefyd wedi ysgrifennu na all pobl sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yn anghyfreithlon fanteisio o'n mesurau modern i ddiogelu rhag caethwasiaeth.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi ac yn collfarnu'r iaith beryglus ac annynol a ddefnyddiwyd i gefnogi'r Bil hwn. Mae'r rethreg yma yn meithrin ac yn rhoi llwyfan ar gyfer diwylliant o gamdriniaeth, hiliaeth a hyd yn oed drais yn erbyn ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrif ethnig.

Fel ardal sy'n anelu i fod yn Sir Noddfa, mae'r Cyngor hwn a phobl Sir Fynwy wedi agor eu calonnau a'u cartrefi a chroesawu a derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches am ddegawdau, yn neilltuoel mewn cyfnodau diweddar yn dilyn rhyfel Wcráin. Gwnaeth hyn ein sir yn lle mwy diddorol, amrywiol a goddefgar.

Mae'r Cyngor hwn yn collfarnu gweithred Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac yn galw ar Brif Weinidog y DU a'i weinidogion i ddileu'r cynigion garw hyn.

Galwn ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yn y termau cryfaf posibl i amlinellu ein pryderon.

8. Cwestiynau gan Aelodau

8.1. Gan y Cynghorydd Sir Ian Chandler i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr aelod cabinet roi dyddiad cadarn i breswylwyr yn Ynysgynwraidd a Cross Ash pryd y bydd y B4521 ger Fferm Trebella wedi ei thrwsio a bod y goleuadau traffig 'dros dro' yn cael eu symud?

8.2. Gan y Cynghorydd Sir i'r Cynghorydd Sir Angela Sandles/Catherine Fookes, Aelodau Cabinet Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Mewn ymateb i bolisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fod angen dogfen adnabod gyda llun arni ar gyfer etholiadau yn Lloegr a'r Deyrnas Unedig, y mae llawer o arbenigwyr yn rhagweld fydd yn gostwng nifer y bobl ifanc a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig fydd yn pleidleisio, a all yr aelod cabinet roi diweddariad ar gynlluniau i sicrhau y gall pob etholwr cymwys yn Sir Fynwy fwrw eu pleidlais yn yr etholiadau nesaf i senedd y Deyrnas Unedig?

8.3. Gan y Cyngorydd Sir Richard John i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Pa gynnydd a wnaeth y weinyddiaeth i gyflawni ei ymrwymiad maniffesto i ddileu'r holl dyllau mewn ffyrdd o fewn pum mlynedd?

8.4. Gan y Cyngorydd Sir Richard John i'r Cyngorydd Sir Mary Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor

Beth mae'r weinyddiaeth wedi'i gyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf?

8.5. Gan y Cyngorydd Sir Louise Brown i'r Cyngorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet Addysg

A all yr Aelod Cabinet roi ymrwymiad y bydd gan yr ysgol 3-19 newydd yn y Fenni doiledau un rhyw ar gyfer pob blwyddyn?

8.6. Gan y Cyngorydd Sir Christopher Edwards i'r Cyngorydd Sir Sara Burch, Aelod Cabinet Cymunedau Cynhwysol ac Egnïol

Mae cymuned o deithwyr wedi gweryslla'n ddiweddar ym maes parcio Canolfan Hamdden Cas-gwent ddwy waith mewn cyfnod o 6 wythnos. Fel y gwyddoch, mae hwn yn faes parcio sydd hefyd yn ffinio Ysgol Cas-gwent. Mae hyn wedi tarfu ar breswylwyr, busnesau, yr ysgol a'r ganolfan hamdden, heb sôn am y gwaith ychwanegol i staff y cyngor a'r heddlu.

A all yr Aelod Cabinet esbonio pa opsiynau y bydd y cyngor yn eu cymryd yn y dyfodol i atal y maes parcio hollbwysig a prysur hwn yng Nghas-gwent, a ddefnyddir gan breswylwyr, rhieni, plant, defnyddwyr y ganolfan hamdden a thwristiaid rhag cael ei ddefnyddio a'i gamddefnyddio yn y ffordd hon? Mae safleoedd swyddogol i deithwyr yn Sir Fynwy, fodd bynnag caiff Cas-gwent ei gweld fel targed rhwydd a chaiff cyfleusterau'r cyngor eu cam-drin, gyda phreswylwyr hefyd yn methu manteisio'n llawn ar y gwasanaethau y maent wedi dod i'w disgwyl gan gyngor.

8.7. Gan y Cyngorydd Sir Christopher Edwards i'r Cyngorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy a Dirprwy Arweinydd

Ym mis Ionawr 2023 cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd wrth y cyngor hwn y caiff unrhyw welliannau yn y dyfodol i gylchfan Highbeech eu trafod eto gyda Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ac y cysylltwyd ag ef i ofyn am astudiaeth bellach ar Gylchfan Highbeech ac y byddai'r Aelod Cabinet yn cynnal cyfarfod ddiwedd mis Ionawr gyda'r Gweinidog.

Gan fod Llywodraeth Cymru yn 2022 wedi dileu'r cyllid gwreiddiol a

gytunwyd ar gyfer yr astudiaeth bellach hon, a all yr Aelod Cabinet gadarnhau os y cynhaliwyd y cyfarfod, beth yn union gafodd ei drafod a beth oedd canlyniad y cyfarfod hwnnw, ac unrhyw gyfarfodydd pellach a allai fod wedi eu cynnal ers hynny i edrych ar wella'r seilwaith yng Nghas-gwent y mae angen dybryd amdano.

9. Cyfarfod nesaf – 18 Mai 2023

**Paul Matthews
Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.